Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# ASTUDIAETH ACHOS:
# Y DRINDOD DEWI SANT MEWN DIWYDIANT

ASTON MARTIN





"Yn y Drindod Dewi Sant rydym ni'n credu mewn rhaglenni academaidd sy'n cael eu harwain gan ddiwydiant. Rydym ni o'r farn ei bod yn eithriadol o bwysig bod y rhaglenni hyn yn datblygu graddedigion sy'n barod ar gyfer diwydiant. Mae angen i ni sicrhau bod y graddedigion hyn â'r lefel iawn o sgiliau ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion sefydliadau a'r cyfleoedd a gynigir ganddyn nhw. Bu'r Bartneriaeth CAMPUS hefyd o fudd i'r Drindod Dewi Sant yn nhermau dulliau cyflwyno ein haddysgu ac o ran rhoi'r addysgu hwn yn ei gyd-destun i'n myfyrwyr"

Graham Howe, Y Drindod Dewi Sant



# Y prosiect:

Cydweithiodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac Aston Martin drwy Bartneriaeth SMART. Menter 12 mis yw hon rhwng cwmni a phrifysgol yn edrych ar brosiect sy'n canolbwyntio ar gynyddu capasiti a galluogrwydd o fewn busnes. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid o 50% ar gyfer costau'r prosiectau hyn ac mae'r cwmni partner yn gymwys i dalu am y costau sy'n weddill.

Bu dau aelod o'r staff academaidd o'r Ysgol Beirianneg yn y Gyfadran Pensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg, gyda chymorth Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch y Brifysgol, yn gweithio gydag Aston Martin i ddatblygu prosiect a edrychodd ar ddatblygu ac optimeiddio eu proses fondio.

Penododd y prosiect ddau Gymrawd Ymchwil i weithio ar y prosiect dan gefnogaeth a goruchwyliaeth y ddau academydd a dau oruchwyliwr o'r cwmni.

# Canlyniadau:

Roedd llwyddiant y prosiect y tu hwnt i'r disgwyliadau. Roedd Aston Martin wedi elwa o arbedion blynyddol o fwy na £500,000 gan fireinio proses a oedd wedi cymryd tri mis yn flaenorol, i lawr i 30 munud. Hefyd yn sgil y prosiect cynigiwyd swyddi llawn amser gyda'r cwmni i'r ddau Gymrawd.

Roedd buddion y prosiect ar gyfer y cwmni'n amlwg iawn, ond mae'r Brifysgol hefyd yn parhau i gael buddion sylweddol yn sgil y prosiect a'r berthynas a ddatblygodd:

### Gwell dysgu ac addysgu/profiadau myfyrwyr:

- Cyd-greu cwricwlwm ar gyfer rhaglenni israddedig mewn meysydd gweithgynhyrchu a modurol.
- Datblygwyd deunydd addysgu ac astudiaethau achos o weithgarwch y prosiect a'r ymchwil.
- Dau brosiect diwydiannol mawr i fyfyrwyr israddedig peirianneg.
- Arweiniodd prosiectau deillio at gyfleodd am dair interniaeth â thâl i fyfyrwyr.
- Bu'r cymrodyr ymchwil a goruchwylwyr y cwmni'n rhoi cyflwyniadau fel darlithwyr gwadd.
- Rhoddodd Aston Martin offer ffisegol ar fenthyg i'r Drindod Dewi Sant at ddefnydd myfyrwyr ar brosiectau megis profi deunyddiau / offer gwytnwch.
- Buddsoddwyd incwm yn ôl i mewn i'r Ysgol er mwyn cynyddu'r maes gweithgarwch hwn.

### Datblygiad Staff:

- Profiad o weithio'n agos â gweithgynhyrchwr ceir moethus eiconig o Brydain ar gymwysiadau byw sy'n fuddiol yn fasnachol.
- Cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant technegol gwerth fwy na £9,000.
- Datblygu gwybodaeth y gellir ei defnyddio/rhannu â rhaglenni a charfannau eraill.
- Cynlluniau am brosiectau eraill yn y dyfodol yn sgil llwyddiant y berthynas.
- Mae nifer o brosiectau amlddisgyblaethol eraill yn cael eu cynllunio'n cynnwys academyddion eraill ar draws yr Ysgol a'r Gyfadran.
- Mae mwy o drafodaethau trawsgyfadrannol yn digwydd ym meysydd ansawdd a ganfyddir drwy'r synhwyrau gyda Seicoleg a Chelf a Dylunio.

### Marchnata a recriwtio:

- Hysbysebwyd cyflwyniadau darlithwyr gwadd Aston Martin i'r Drindod Dewi Sant yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r prosiect hwn fel esiampl ac mae wedi creu astudiaeth achos ar fideo.
- Sicrhawyd recriwtio uniongyrchol ar gyfer 10-15 gradd-brentisiaid yn sgil hyn.
- Mae'r Cymrodyr Ymchwil wedi cytuno i roi anerchiadau pellach i ddarpar fyfyrwyr neu fyfyrwyr cyfredol am eu profiadau.

### Cenhadaeth ddinesig:

- Gweithiodd yn agos â Llywodraeth Cymru yn rhan o'i gwaith o sicrhau bod Aston Martin yn dod i Gymru - gan arwain at gyflogaeth i'r rhanbarth.
- Mae'r berthynas a'r cysylltiadau â Llywodraeth Cymru wedi'u cryfhau gyda rhai aelodau o'r tîm yn cael eu gwahodd i fynd ar fforymau.
- Mae'r perthnasoedd a'r ddealltwriaeth a gafwyd drwy'r prosiect wedi arwain at y tîm yn gwneud cysylltiadau â chwmnïau lleol.
- Bydd cysylltiadau busnes i fusnes newydd yn arwain nid yn unig at fuddion pellach i'r Drindod Dewi Sant ond bydd hefyd yn helpu i gryfhau'r gadwyn gyflenwi leol.

“Mae wedi cael effaith wych ar y busnes. Rydym ni wedi cael gweithiwr llawn amser a swm enfawr o brofiad a gwybodaeth. Oherwydd y bartneriaeth, rydym ni wedi gwneud ein prosesau’n fwy effeithlon - a hyd yn oed wedi dechrau defnyddio prosesau nad oeddem ni wedi’u defnyddio o’r blaen.  Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni wedi ystyried y byddai hyn gystal ag y mae wedi bod”

Guy Stanley, Aston Martin

Cysylltwch â ni os hoffech chi siarad am Bartneriaeth SMART Aston Martin.

**Richard Morgan,**
Uwch Ddarlithydd, Ysgol Peirianneg
(Cyfadran Pensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg)
richard.morgan@uwtsd.ac.uk

**Graham Howe,**
Prif Gymrawd Ymchwil (Prosiect Cymru I4.0)
graham.howe@uwtsd.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ASTON MARTIN

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government